

Cronfa Waddol Gymunedol Sir Ddinbych

Meini Prawf Cyllido: Unigolion



Nod Cronfa Waddol Cymunedol Sir Ddinbych yw ariannu mentrau addysgol. Mae'r gronfa yn gofyn am geisiadau gan:

- Prosiectau cyrhaeddiad addysgol gan gynnwys dysgu gydol oes
- Prosiectau cynhwysiant addysg gyda chefnogaeth i fyfyrwyr unigol talentog ar ffurf ysgoloriaethau, cymorth teithio, chwaraeon, gwobrau am gyrhaeddiad a deunyddiau addysgol

Grantiau ar gael

Gall unigolion wneud cais am grantiau o hyd at £500.

Pwy all wneud cais?

Myfyrwyr hyd at a chan gynnwys 25 oed sydd ar hyn o bryd yn byw yn llawn amser yn ardal Awdurdod Lleol Sir Ddinbych, ar yr amod nad yw'r mentrau yn dod o fewn darpariaeth statudol.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos yn union sut y byddant yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi derbyn cefnogaeth gan y Gronfa hon o'r blaen.



Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan.

Sylwer:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i unigolion allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu dros y tymor hir. Mae Cronfa Waddol Cymunedol Sir Ddinbych bellach yn cynnig cyfle i unigolion wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at 3 blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect 1 flwyddyn neu eitem gyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, dylech ddangos yr angen a'r effaith o gael cyllid am nifer o flynyddoedd o fewn eich ffurflen gais. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.